PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd 2024

# Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Canfyddiadau

Karen McFarlane | Hydref 2024



Mewn partneriaeth â

CYSWLLT RHIENI CYMRU
PARENTS CONNECT WALES

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i aelodau grŵp llywio ECPN a Chyswllt Rhieni Cymru am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth.

**Hoffai Plant yng Nghymru ddiolch o galon i'r holl rieni, gofalwyr, plant, pobl ifanc, ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg. Hebddyn nhw, fyddai ein harolygon a'r adroddiad hwn ddim yn bosib. Diolch yn fawr.**

*Er cof am Karen McFarlane, a ysgrifennodd yr adroddiadau o 2021-2024.*



Y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddarparwyd trwy garedigrwydd ymatebwyr yr arolwg.

Ariannir yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Barn yr awdur a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn yr ariannwr.

Barn yr ymatebwyr i'r cwestiynau yn yr arolwg a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn Plant yng Nghymru.

***Yr adroddiad hwn yw prif gyhoeddiad canfyddiadau Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2024. Ar ben hynny, cyhoeddwyd y canfyddiadau ar ffurf adroddiadau llai ar wahân, sydd i gyd ar gael ar wefan Plant yng Nghymru:***

***Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad canfyddiadau***
***Rhieni/Gofalwyr: Adroddiad canfyddiadau***
***Ymarferwyr a Gweithwyr Proffesiynol: Adroddiad canfyddiadau***
***Crynodebau ffeithluniau***
***Fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'u canfyddiadau***

Manylion cyswllt: info@childreninwales.org.uk

# Gwybodaeth am Plant yng Nghymru

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Ein Gweledigaeth: Adeiladu Cymru lle mae holl hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu gwireddu.

Ni yw'r corff cenedlaethol trosfwaol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Rydyn ni'n cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac eraill yng Nghymru i sicrhau bod hawliau plant yn cael lle blaenllaw mewn polisi ac wrth wneud penderfyniadau.

I wneud hynny rydyn ni'n canolbwyntio ar sicrhau bod llais gan blant a phobl ifanc yng Nghymru, rydyn ni'n brwydro dros wasanaethau cynaliadwy a theg, yn eiriol dros newidiadau polisi yng Nghymru, ac yn cysylltu ac yn cynrychioli'r gwaith mae ein haelodau yn ei wneud.

Mae ein haelodaeth yn cynnwys unigolion a sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc ar nifer o wahanol brosiectau, ac mae gennym ni aelodaeth benodol ar gyfer ein cynulleidfa ifanc.

I gael gwybod mwy am ein gwaith, neu i ddod yn aelod o Plant yng Nghymru, cysylltwch â ni ar membership@childreninwales.org.uk

# Gwybodaeth am Cyswllt Rhieni Cymru

### Prosiect yw Cyswllt Rhieni Cymru (PCW) sy'n cael ei arwain gan Plant yng Nghymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw grymuso lleisiau rhieni/gofalwyr i hybu hawliau plant.

Mae Cyswllt Rhieni Cymru wedi sefydlu:-

- Fforwm gweithwyr proffesiynol gyda 110 o aelodau hyd yma
- Grŵp cynghori i rieni, gyda 6 chynrychiolydd sy'n rhieni
- 22 o gynrychiolwyr lleol, un ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru
- Platfform ar-lein o'r enw 'Hyb Ar-lein Cyswllt Rhieni Cymru'

I gael rhagor o wybodaeth am brosiect Cyswllt Rhieni Cymru, ewch i'r hyb ar-lein neu cysylltwch â parentsconnect@childreninwales.org.uk

**DS** Wrth gyfeirio at 'rhieni' rydyn ni'n ei ddefnyddio'n derm cynhwysol sy'n cwmpasu rhieni (yn famau a thadau), gofalwyr, rhieni cu, rhieni maeth, rhieni mabwysiadol neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant.

# Gwybodaeth am Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

### Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant (ECPN) Cymru yn glymblaid o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi plant yng Nghymru, ac sy'n cael ei gydlynu a'i reoli o ddydd i ddydd gan Plant yng Nghymru.

Mae ei Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolaeth ar draws y sectorau gwirfoddol a statudol, ac mae gan y rhwydwaith ehangach fwy na 1200 o aelodau cefnogol o groestoriad eang o asiantaethau.

Os hoffech chi ymuno â ffurf ehangach Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, ewch i'r wefan neu cysylltwch â info@childreninwales.org.uk

# Hawliau Plant a Thlodi

## Mae tlodi'n mynd yn groes i nifer o Erthyglau a gyflwynir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae CCUHP yn gytundeb rhyngwladol sy'n cyflwyno hawliau plant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Mae wedi'i seilio ar dair egwyddor: **cyfranogiad, amddiffyniad a darpariaeth.**

Yn 2011, crisialwyd **CCUHP** yng nghyfraith Cymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi.

**Mae tlodi'n amddifadu plant a phobl ifanc o lawer o'u hawliau:**

- Eu hawliau i ddatblygu eu potensial llawn (Erthygl 6)
- Eu hawliau i gael yr iechyd gorau posibl a bwyd maethlon (Erthygl 24)
- Eu hawliau i elwa o nawdd cymdeithasol (Erthygl 26)
- Eu hawliau i gael safon byw digonol sy'n diwallu ac yn cefnogi eu hanghenion (Erthygl 27)
- Eu hawliau i gael addysg, a hynny ar sail cyfle cyfartal (Erthygl 28)
- Eu hawliau i chwarae a chael cyfleoedd hamdden (Erthygl 31)

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014** yn gosod dyletswydd sylw dyledus tebyg ar gyrff cyhoeddus penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd, o ran CCUHP wrth gyflawni eu swyddogaethau'n rhanbarthol ac yn lleol.

Ym mis Mawrth 2021, daeth y **Ddyletswydd Sosio-economaidd** i rym yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus penodol ystyried sut gall eu penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sydd o dan anfantais sosio-economaidd.

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Strategaeth Tlodi Plant a ddiweddarwyd, er mwyn helpu i atal a lliniaru tlodi plant.

# Rhieni/Gofalwyr a Hawliau Plant

**Mae CCUHP yn sôn yn fwy am 'rieni' a 'theuluoedd' na 'phlant' ac yn cydnabod bod hawliau plant yn cael eu diogelu o fewn teuluoedd yn gyntaf.**

Mae'r erthyglau sy'n dilyn yn cydnabod rôl allweddol rhieni a theuluoedd wrth amddiffyn plant a gofalu amdanynt:-

- Eu hawl i gael ystyried eu lles pennaf ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw (Erthygl 3)
- Eu hawl i rôl eu rhieni/gofalwyr gael ei chydnabod a'i pharchu, fel bod plant yn gallu cyrchu eu holl hawliau (Erthygl 5)
- Eu hawl i gael eu magu gan y ddau riant, os yw hynny'n bosib (Erthygl 18)

**Gall tlodi amddifadu rhieni/gofalwyr o'r gallu i gyflawni hawliau eu plant a sicrhau eu bod yn cael eu diwallu.**

YCewch ragor o wybodaeth am sut gall rhieni gefnogi hawliau plant yma:-
UNCRC_Understanding_Childrens_Rights.pdf (childreninwales.org.uk)

# Cynnwys


**Canfyddiadau'r arolwg plant a phobl ifanc**

Cyflwyniad ........ 8

Am yr arolwg ........ 9

**Canfyddiadau ........ 10**

Materion tlodi ........ 11

Tlodi a'r ysgol ........ 13

Gwisg ysgol ........ 15

Bwlio a thlodi ........ 19

Tlodi a'r cartref ........ 21

Tlodi yn y gymuned ........ 23

Hamdden a gweithgareddau ........ 25

Tasen i'n Brif Weinidog Cymru ........ 28

# Cyflwyniad

Mae’r arolwg Plant a Phobl Ifanc yn elfen bwysig o’n hadroddiad blynyddol ar dlodi, trwy roi llais iddyn nhw a sicrhau bod eu barn a’u profiadau yng nghyswllt tlodi yn cael eu clywed.

Mae canfyddiadau’r arolwg yn darparu gwell dealltwriaeth o’r materion cysylltiedig â thlodi sy’n bwysig i blant a phobl ifanc, ac effaith bosibl y materion hynny ar eu bywydau. Gwaetha’r modd, mae’r rhan fwyaf o’r naratif yn dal yn debyg i’n hadroddiad yn 2023, fel y mae’r effaith y cyfeiriwyd ati.  O ystyried y cyd-destun hwn, mae’r adroddiad hwn yn 2024 yn darparu crynodeb byr o ganfyddiadau eleni ar gyfer pob un o’r meysydd yn yr arolwg.




# Am yr arolwg

Bu'r arolwg yn fyw am gyfnod o 5 wythnos o 30 Ebrill tan 7 Mehefin 2024. Roedd yn agored i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, ac yn cael ei gwblhau'n ddienw gan yr ymatebwyr. Nid oedd yr arolwg yn targedu'n arbennig blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a/neu'n byw mewn ardaloedd difreintiedig; nid oedd yr arolwg chwaith yn gofyn oedden nhw eu hunain yn byw mewn tlodi neu wedi'i brofi. Yn hytrach, roedd yr arolwg yn ceisio'u barn ar sut gallai tlodi effeithio ar wahanol agweddau o fywydau plant.

Gofynnwyd pob cwestiwn yn y trydydd person, ac roedd yr arolwg yn darparu esboniadau gofalus, hawdd eu deall i blant a phobl ifanc o derminoleg benodol, er enghraifft beth mae 'tlodi' a 'dyled' yn golygu. Yn anochel, roedd cyfraddau cwblhau'r cwestiynau unigol yn amrywio o 93%-100%. O ganlyniad, mae'r holl ffigurau wedi'u seilio ar y niferoedd a ymatebodd i bob cwestiwn unigol.

Ymatebodd cyfanswm o 250 o blant a phobl ifanc, gydag ystod oed oedd yn cwmpasu rhai o dan 10 oed hyd at 25 oed.

**Ystod oed yr ymatebwyr**




O'r ymatebwyr, dywedodd 4% nad oedd ganddyn nhw anabledd, roedd 3% yn dewis peidio â dweud, roedd 9% yn ansicr, a disgrifiodd 84% eu hunain fel rhai oedd heb anabledd.

Holwyd y plant a'r bobl ifanc hefyd am eu hethnigrwydd, ac er nad atebodd pawb y cwestiwn hwn, roedd y rhai a wnaeth hynny yn nodi hunaniaeth fel a ganlyn: Asiaidd o wlad arall (6%); Asiaidd Gymreig neu Brydeinig (12%); Du o wlad arall (5%); Tras Gymysg (5%); Gwyn o wlad arall (10%); Gwyn Cymreig neu Brydeinig (51%); Unrhyw grŵp ethnig arall (2%); Ddim yn siŵr (6%); a Dewis peidio â dweud (2%).

O ystyried nifer yr ymatebion i'r arolwg, nid oes modd gwybod a yw'r canfyddiadau gan y rhai oedd yn nodi bod ganddynt anabledd neu eu bod yn perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol yn arwyddocaol wahanol i atebion yr ymatebwyr eraill.




# Canfyddiadau

# Materion tlodi

**“Mae llawer o bobl ifanc yn dibynnu ar oedolion ac felly’n methu newid yr amgylchiadau maen nhw ynddynt, sy’n arwain at fwy o bryderu a thrallod.”** **(19-25oed)**

Gofynnwyd cwestiwn trosfwaol i’r plant a’r bobl ifanc ynghylch beth roedden nhw’n meddwl oedd yn effeithio fwyaf ar blant sy’n byw mewn tlodi. Gofynnwyd iddyn nhw ddewis 2 opsiwn o’r rhestr sydd yn y siart isod.

**"Beth rydych chi'n meddwl sy'n effeithio fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi?"**




**“Os ydych chi mewn dyled, mae hynny’n creu mwy o broblemau, achos mae angen arian arnoch chi i dalu am filiau, ac unwaith rydych chi wedi talu’r rheiny, fydd gennych chi ddim digon o arian ar gyfer bwyd.”** **(10-13oed)**

Gofynnwyd i’r plant a’r bobl ifanc wneud sylwadau ar eu dewisiadau, ac fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd mwyafrif llethol yn amlygu **effaith feddyliol ac emosiynol tlodi.** Ymhlith yr effeithiau mwyaf cyffredin roedd **teimlo’n bryderus** oherwydd bod dim digon o arian ganddyn nhw, teimlo’n **anhapus** ac yn **ynysig, bod mewn dyled**, a **theimlo eu bod yn cael eu gadael allan**. Roedden nhw hefyd yn aml yn cyfeirio at deimlo **cywilydd** a **cheisio cuddio’u hamgylchiadau** oddi wrth gyfoedion ac oedolion.

**“Bod mewn dyled a methu fforddio tŷ a methu mynd i’r ysgol achos bod rhaid i chi fwydo brodyr neu chwiorydd.”** (10-13oed)

Fel mewn arolygon blaenorol, cododd plant a phobl ifanc faterion ynghylch **bwlio cysylltiedig â thlodi droeon**, a hynny yn yr ysgol a’r tu allan. Er nad oedd y cwestiwn yma’n sôn yn benodol am amgylchedd yr ysgol neu addysg, fe wnaeth plant a phobl ifanc sylwadau bod tlodi’n effeithio ar eu haddysg, eu profiadau a’u cyfleoedd mewn bywyd.

**“Tystio i rieni’n delio â straen ariannol, a’r straen yna yn ei dro yn effeithio ar berthnasoedd teuluol... colli cyfle i fynd ar deithiau ysgol, colli cyfle o ran digwyddiadau neu weithgareddau ar y penwythnos gyda chyfoedion. Cuddio’u sefyllfa ariannol, rhag ofn cael eu bwlio neu deimlo cywilydd yn yr ysgol.”** (19-25oed)




# Tlodi a’r ysgol

**“Mae rhai plant yn newynu yn yr ysgol, neu’n llwglyd tan ddiwedd y dydd, ac yna wrth fynd adre efallai bod dim digon o fwyd i lenwi’u bol, neu falle bod nhw’n poeni fyddan nhw’n cael rhywbeth i’w fwyta gartre, neu’n pryderu bod eu rhieni ddim yn bwyta er mwyn iddyn nhw gael rhywbeth.” (10-13oed)**

Mewn perthynas â’r ysgol, gofynnodd yr arolwg beth sy’n fwyaf tebygol o effeithio ar y rhai sy’n byw mewn tlodi. Eto, rhoddwyd opsiynau amlddewis, a gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis 2 opsiwn. Roedd yr opsiynau a ddarparwyd wedi’u seilio ar faterion a godwyd gan blant a phobl ifanc mewn arolygon blaenorol.

**"Yn yr ysgol, beth sy'n effeithio fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi?"**




**“Mae [tlodi] yn gwneud bywyd ysgol yn annioddefol.” (10-13oed)**

Pan ofynnwyd iddyn nhw wneud sylwadau ar eu dewisiadau, gwnaeth y rhan fwyaf o’r plant a’r bobl ifanc, beth bynnag oedd eu dewisiadau, sylwadau am **fwlio cysylltiedig â thlodi yn yr ysgol** ac effaith hynny ar **iechyd meddwl.** Nodwyd **eu bod nhw ddim eisiau mynd i’r ysgol** oherwydd hynny, a chyfeiriwyd at ddiffyg **gwisg ysgol** gywir neu fethu fforddio **teithiau ysgol** fel prif achos bwlio cysylltiedig â thlodi. Mae’r materion hyn yn cael eu harchwilio ymhellach mewn adrannau dilynol o’r adroddiad.

### “Mae’n brifo. Rwy’n gwybod.” (10-13oed)

Nododd plant a phobl ifanc fod yn **drist, yn ynysig ac yn unig yn yr ysgol** ac roedd sylwadau rheolaidd am gael eu bwlio gan eu cyfoedion neu fod athrawon yn ‘pigo arnyn nhw’. Roedden nhw wedi ypsetio bod **tlodi yn effeithio ar eu dysgu** a’u mynediad at gyfleoedd neu’n syml ‘gyfleoedd i ymuno’, er enghraifft trwy deithiau ysgol a gweithgareddau eraill.


### “Mae cael eich bwlio yn un peth, ond mae bod heb braidd dim arian i dalu am fwyd neu’r wisg ysgol yn gallu creu llawer o broblemau a phryderon.” (10-13oed)

Roedd hefyd nifer sylweddol o sylwadau am fethu dysgu os oedden nhw’n oer neu’n llwglyd, gan eu bod yn teimlo ei bod hi’n anodd canolbwyntio ar waith ysgol. Nododd ambell un fod hynny’n **cynyddu amlder cosbau** i rai dysgwyr, oedd yn aml yn arwain at gadw mewn ar ôl ysgol neu ‘bwyntiau ymddygiad negyddol’ neu ‘bryderon’*.

### “Bydd yr ysgol yn eu dirwyo os ydyn nhw’n rhy ofnus i fynd i’r ysgol oherwydd y bwlio, a fydd ganddyn nhw ddim gwisg ysgol gywir, felly byddan nhw’n cael nodi pryderon neu fath arall o gosb.” (10-13oed)

* Ymddengys bod ‘pwyntiau ymddygiad negyddol’ neu ‘bryderon’ yn cael eu defnyddio’n aml gan ysgolion i nodi digwyddiadau ymddygiad lefel isel, megis siarad yn lle gwrando yn y dosbarth, bod yn anghwrtais neu’n angharedig. Ar sail canfyddiadau ein harolwg, mae’n amlwg bod gwisg ysgol anghywir hefyd yn cael ei chynnwys yn hyn.

Mae ysgolion yn amrywio o ran a ydyn nhw’n defnyddio’r dull yma o gofnodi ac adrodd digwyddiadau ymddygiad, a hefyd o ran eu camau dilynol neu eu cosbau. Dyw e ddim yn hysbys ydy pob ysgol yn defnyddio’r system yma, ond cyfeiriwyd ati gan ryw 90% o’n hymatebwyr i’r arolwg o bob rhan o Gymru.



# Gwisg Ysgol


**“Falle bydd gan blant ddim digon i brynu sgert ysgol, ond yna byddan nhw’n mynd i drwbwl am beidio â gwisgo un, er bod y sgertiau ysgol yn costio £20.”** **(10-13oed)**

Yn dilyn y sylwadau a wnaed gan blant a phobl ifanc yn y ddau arolwg blaenorol, fe wnaethon ni ddechrau archwilio’r materion oedd yn codi ynghylch gwisgoedd ysgol, ac effaith bosibl hynny ar blant a’u teuluoedd oedd yn byw mewn tlodi neu ar incwm is. Fel y dangoswyd yn yr adran flaenorol, cyfeiriwyd at fod heb y wisg ysgol gywir fel **prif achos bwlio cysylltiedig â thlodi** ac i lawer, yn arwain at lesiant emosiynol a meddyliol gwael.

**“Ddylen nhw ddim mynd i drwbwl oherwydd bod pethau’n costio arian.”** **(10-13oed)**

Mae gwisgoedd ysgol yn ddrud, ac mae hynny’n waeth fyth pan fydd bathodynnau neu logos ysgol yn ofynnol ar y wisg honno, a bod rhaid eu prynu o fanwerthwyr arbenigol. Yn ein hadroddiad ar arolwg 2023, buon ni’n edrych yn fanylach ar gostau gwisg ysgol, gan nodi bod y costau cyfartalog yn amrywio o £75.50 am wisg ysgol ‘heb fathodyn’ a brynwyd o archfarchnad, yn codi i £183.50 am wisgoedd ysgol ‘â bathodyn’ lle roedd rhaid prynu un neu fwy o eitemau o fanwerthwr arbenigol. Mae’r gwahaniaeth cost yma yn cael effaith eithriadol o fawr ar deuluoedd sy’n byw ar incwm is.

**Oes rhaid i ti wisgo bathodyn ysgol neu logo ysgol ar dy wisg ysgol?**




Gofynnodd yr arolwg i’r plant a’r bobl ifanc beth sy’n digwydd os nad ydyn nhw’n gwisgo’r wisg gywir. Yr ymateb mwyaf cyffredin i hyn oedd cael eu **bwlio a/neu eu cosbi**. Bu’r plant a’r bobl ifanc yn rhannu enghreifftiau o’r gosb, oedd yn aml yn cynnwys: **cadw ar ôl ysgol, pwyntiau ymddygiad negyddol, pryderon, anfon adre a ‘dweud y drefn’**.

Disgrifiodd ambell un gael eu **hynysu** heb ganiatâd i ryngweithio ag eraill na bod yn rhan o ddosbarthiadau ac amserau egwyl. Mynegodd eraill bryderon bod rhieni'n cael eu galw mewn i 'ddod â'r wisg ysgol gywir'. Roedd hyn yn **creu pryder** iddyn nhw, oherwydd eu bod yn gwybod bod eu rhieni'n methu fforddio prynu'r wisg ysgol gywir.

**"Rydyn ni'n cael cerdyn gwyrdd, ac os bydd y cerdyn gwyrdd yn rhedeg allan, byddwn ni'n cael pwynt negyddol a'n cadw mewn." (10-13oed)**

Ymhlith y canlyniadau eraill, llai amlwg, roedd **'Cardiau gwyrdd', colli eu ffôn** a mynd i'r hyb gwisg ysgol. Roedd y dysgwyr yn disgrifio 'Cardiau gwyrdd' fel pas roedd yn rhaid i'r dysgwr ei gario, neu mewn rhai achosion, ei wisgo yn y golwg. Mae'r cardiau yma'n cynnwys rhesymau pam nad yw'r dysgwr yn gwisgo'r wisg ysgol gywir, a dyddiad erbyn pryd mae rhaid cywiro hynny. Rhaid i'r dysgwr ddangos y cerdyn yma i aelodau staff wrth gael eu herio am eu gwisg. Os na chaiff y wisg ei chywiro erbyn y dyddiad a nodwyd, **caiff y dysgwyr eu cosbi**.


Esboniwyd yr hyb gwisg ysgol yn bennaf gan ymatebwyr fel man lle gallen nhw 'fenthyg' yr eitem ofynnol, a'i dychwelyd ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Roedd hynny i'w weld yn dderbyniol i rai, tra bod eraill yn dweud bod yr eitemau'n aml heb eu golchi, oedd yn arwain at fwy o fwlio. Roedd y rhai fyddai'n dewis peidio â gwisgo'r eitem yma yn aml yn dweud eu bod wedyn yn cael eu hynysu am y dydd.

**"Rydyn ni'n cael rhybuddion, gallwn ni gael ein gwahardd, rydyn ni wastod yn cael ein hanfon i'r hyb gwisg ysgol." (14-16oed)**


Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd rhai sylwadau yn amlygu dealltwriaeth ac ystyriaeth i blant yr oedd eu teuluoedd yn methu fforddio'r wisg ysgol.

**"Does dim byd [yn digwydd], mae'r ysgol yn oddefgar iawn oherwydd bod llawer o deuluoedd o gefndir sosio-economaidd isel." (10-13oed)**

**Eitemau gwisg ysgol sydd angen bathodyn ysgol neu logo**




**Nifer yr eitemau gwisg ysgol sydd angen bathodyn ysgol neu logo**




Fel mae'r siart uchod yn dangos, mae gofyn bod bron traean (31%) o'r rhai a ymatebodd yn gwisgo bathodyn ysgol ar o leiaf 2 eitem o'u gwisg ysgol, a dilynir hynny'n agos gan 27% sy'n gorfod gwisgo 4 eitem â bathodyn. Dylid nodi, yn achos 2 eitem neu fwy, fod Citiau Addysg Gorfforol yn aml yn cael eu cynnwys. At ddibenion yr arolwg hwn, mae citiau AddGorff yn cael eu hystyried yn 1 eitem, ond mae'r sylwadau a wnaed gan blant a phobl ifanc yn dangos bod y categori yma'n cynnwys o leiaf 2 eitem, ond yn fwy aml 4-5 eitem â bathodyn.

O ystyried cwmpas yr arolwg, nid oes modd gwybod a all y rhieni brynu bathodynnau i'w smwddio/gwnïo ar y wisg, a'u rhoi ar yr eitemau gofynnol. Fodd bynnag, gan fod canran mor uchel **(73%) yn cael eu prynu o werthwr arbenigol**, mae hynny' ymddangos yn annhebygol.






Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu *Canllawiau Polisi Gwisg Ysgol ac Edrychiad* sy'n cynnwys cyngor i ysgolion ar ffyrdd o ymdrin â chost gwisgoedd ysgol. Fodd bynnag, mae canfyddiadau ein harolygon yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dangos bod **angen mynd ati ar frys i roi'r canllawiau hyn ar waith i raddau helaethach ac yn fwy effeithiol** mewn llawer o ysgolion yng Nghymru.

**"Gwneud pethau dwl fel gwisg ysgol, sydd ddim angen bod mor ddrud, yn llai drud ac yn haws eu fforddio." (14-16oed)**

I helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pellach o effaith ariannol ac emosiynol arfer gwisg ysgol cyfredol mewn ysgolion, mae Plant yng Nghymru wedi cynhyrchu nodyn briffio ac astudiaethau achos *Cefnogi Newid: Gwisg Ysgol*. Cyhoeddwyd hyn ym mis Mehefin 2024, ei ddosbarthu i'r holl ysgolion yng Nghymru, a'i hyrwyddo gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, ochr yn ochr â'r Grant Hanfodion Ysgol. Yn ogystal â'r adnoddau hyn, mae *Taclo Effaith Tlodi mewn Addysg* yn rhoi gwybodaeth i ysgolion ar sut mae lliniaru effaith tlodi ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

# Bwlio a thlodi

**“Mae gorfod pryderu am fwyd ac arian yn ddigon i blant ei brosesu; gall cael pobl yn eich bwlio am hynny wneud i chi gau lawr, a mynd yn ynysig ac yn isel.”** **(10-13oed)**

Cafodd cwestiynau am fwlio cysylltiedig â thlodi eu cynnwys gyntaf yn ein harolwg yn 2022. Cyn hynny, doedden ni ddim yn gofyn am hynny'n benodol, ac eto roedd cynifer o blant a phobl ifanc yn cynnwys hynny yn eu hymatebion, beth bynnag oedd y cwestiwn. O ganlyniad, mae bwlio cysylltiedig â thlodi yn awr yn cael ei gynnwys fel rhan greiddiol o'n hastudiaeth.


Ddwy flynedd yn ddiweddarach, nid yw'r naratif gan blant a phobl ifanc wedi newid, ac mae'n dal yn amlwg iawn yn eu hymatebion, beth bynnag yw'r cwestiynau. Fel mewn canfyddiadau blaenorol, soniodd plant a phobl ifanc am **deimlo'n ynysig, yn isel ac yn drist, teimlo eu bod nhw ddim yn ddiogel a'u bod yn 'cuddio o'r golwg'**. Disgrifiodd eraill deimlo'n anobeithiol neu'n 'faich' a'u bod eisiau rhoi i fyny.

**“Trist iawn, achos mae'n digwydd bob un dydd ers blwyddyn 7.”** **(10-13oed)**

Roedden nhw'n adrodd bod bwlio cysylltiedig â thlodi yn **arwain at lai o hunan-barch**, peidio â chael eu derbyn yn yr ysgol, bod heb neb i siarad â nhw am y peth, bod yn llai tebygol o eisiau cymryd rhan mewn addysg a gweithgareddau **a ddim eisiau mynd i'r ysgol o gwbl**.

**“Ofni dod i'r ysgol.”** **(10-13oed)**

**Wyt ti'n gweld plant a phobl ifanc yn cael eu bwlio oherwydd bod ganddyn nhw ddim cymaint o arian na'r un pethau â phobl eraill?**



Nodwyd canlyniadau bwlio yn glir gan y plant a'r bobl ifanc. Roedd dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o **effaith negyddol hyn ar iechyd meddwl**, iechyd corfforol a'r gallu a/neu'r parodrwydd i ymgysylltu â'r ysgol a gwneud yn dda yno.

Fel y dangoswyd yn yr adran flaenorol, *Gwisgoedd Ysgol*, mae'n eglur bod methu fforddio'r wisg ysgol gywir yn arwain at fwy o fwlio, ond cyfeiriwyd at ffactorau eraill hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys gorfod gofyn am gynnyrch hylendid, cael 'dweud y drefn' am faterion cysylltiedig â thlodi, fel gwisg ysgol anghywir, a methu fforddio mynd ar deithiau ysgol.

**"Mae'n eu gwneud nhw'n agored i fwlio achos eu bod nhw falle heb arian i brynu stwff hylendid personol sylfaenol. Does neb yn yr arddegau eisiau mynd at athro i ofyn am angen hylendid sylfaenol." (14-16oed)**

Roedd cosbau cysylltiedig â materion yn ymwneud â thlodi hefyd yn debygol o **gynyddu difrifoldeb neu amlder bwlio,** er enghraifft cael eu cadw mewn, cael eu hanfon adre, ynysu a chardiau gwyrdd.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc beth ddylai gael ei wneud i atal bwlio cysylltiedig â thlodi yn yr ysgol. Nid yw'n syndod bod llawer o'r mesurau a awgrymwyd yn ymwneud â'r materion roedden nhw wedi'u codi, ond roedd y ffocws yn bennaf ar yr angen i **ysgolion weithredu**. Roedd hynny'n cynnwys; lleihau cost gwisg ysgol; lleihau cost teithiau ysgol; addysgu'r ysgol gyfan, gan gynnwys athrawon, am achosion ac effaith tlodi; creu gwell dealltwriaeth a diwylliant o empathi yn yr ysgol; dilyn polisïau gwrth-fwlio'r ysgol yn fanwl; ac yn well fyth, arfer nad yw'n stigmateiddio gan athrawon a staff.

**"Addysgu plant am gyflwr economaidd y wlad, dileu stigma tlodi, a chanolbwyntio ar y gymuned a llesiant." (19-25oed)**

Ar hyd eu hymatebion, nododd plant a phobl ifanc droeon yr **angen am barch, dealltwriaeth a chefnogaeth emosiynol ac ymarferol** i blant a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi neu ar incwm isel.

**"Ategu ideoleg gwrthfwlio a dangos bod pobl i gyd yn gyfartal, beth bynnag yw eu statws economaidd." (14-16oed)**




# Tlodi a'r cartref

**“Gall bod o gwmpas dadleuon ynghylch arian a phryderon drosodd a throsodd wneud plant yn ymosodol ac yn unig.”** (17-18oed)

Roedd yr arolwg yn gofyn i'r ymatebwyr ystyried beth roedden nhw'n meddwl fyddai'n effeithio fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi, pan fyddan nhw gartref. Eto, roedd fformat y cwestiwn yn gofyn i'r ymatebwyr ddewis 2 o'r rhestr a ddarparwyd.

**“Mae plant yn mynd yn unig ac yn llwglyd.”** (Under 10oed)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r siart isod yn dangos bod plant a phobl ifanc yn pryderu, neu y bydden nhw'n pryderu am fethu aros lle maen nhw'n byw. Yn achos materion eraill, ymddengys bod amrywiadau sylweddol yn eu dewisiadau. Ar gyfer yr arolwg hwn, cynhwyswyd opsiynau ychwanegol a allai egluro'r newidiadau hyn. Mae'r dewisiadau ychwanegol hyn wedi'u seilio ar ganfyddiadau'r llynedd, ac fe'u cynhwyswyd i adlewyrchu'n well sylwadau a phrofiadau plant a phobl ifanc a gasglwyd mewn blynyddoedd blaenorol.



Fel yn achos llawer o'r ymatebion a roddwyd ar hyd yr arolwg, gwnaed sylwadau ar iechyd emosiynol a meddyliol ar hyd yr adran hon. Nododd plant a phobl ifanc **unigrwydd, tristwch, straen, ynysu a delio â materion iechyd meddwl**. Materion eraill a godwyd yn aml oedd diffyg bywyd cymdeithasol a methu rhyngweithio gyda ffrindiau; methu canolbwyntio ar waith ysgol; bod yn llwglyd gartref a hefyd gorfod **mynd heb hanfodion sylfaenol**.

**"Effeithio ar eu hiechyd meddyliol a chorfforol." (10-13oed)**

Roedd cyfeiriadau hefyd at 'orfod helpu'r teulu', gyda sylwadau yn cynnwys yr angen am ofalu am frodyr a chwiorydd neu ennill arian i 'helpu'. Mae'r holl ganfyddiadau hyn yn cyfateb i ymatebion blynyddoedd blaenorol.




# Tlodi yn y gymuned

**“Mae’n effeithio ar bobl ifanc achos mae’n golygu eu bod i bob pwrpas yn ‘gaeth’ yn eu cartrefi. Allan nhw ddim bod yn rhan o bethau fyddai’n gwella ansawdd bywyd a llesiant cyffredinol ac allan nhw ddim mwynhau bywyd a bod yn blentyn.” (19-25oed)**

Gall tlodi ac incwm isel effeithio ar bob agwedd ar fywydau plant a phobl ifanc, gan gynnwys sut maen nhw’n gallu rhyngweithio o fewn eu cymunedau lleol ac ehangach. Mae eu hymatebion i’n cwestiwn am dlodi a’u cymuned yn dilyn tueddiadau tebyg ar draws y blynyddoedd, gyda **‘Byw mewn man lle dydyn nhw ddim yn teimlo’n ddiogel yn mynd allan’** yn cael ei nodi fel y peth oedd yn cael yr effaith fwyaf ar blant a phobl ifanc.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae plant a phobl ifanc wedi mynegi pryder fwyfwy eu bod yn methu fforddio gweld eu ffrindiau neu eu teulu. Mae’r opsiwn yma wedi cael ei gynnwys yn arolwg eleni felly, a gallai egluro gostyngiad mewn meysydd eraill, yn enwedig o ran trafnidiaeth.



## “Teimlo eu bod nhw ddim yn ddiogel, a theimlo’n isel.” (14-16oed)

Mae’n amlwg o’u hymatebion bod tlodi’n gallu bod yn brofiad ynysig, ac fel yn achos yr ymatebion ar hyd yr arolwg, nododd plant yn aml **‘iselder’ a ‘tristwch’**. Roedd y sylwadau ynghylch bod yn ynysig yn canolbwyntio ar fethu fforddio gweld ffrindiau neu aelodau o’r teulu, neu deimlo eu bod nhw ddim yn ddiogel i fynd allan oherwydd eu bod yn pryderu am gael eu bwlio neu ‘gangiau’. Soniodd un plentyn 10-13 oed am fod yn ***“bryderus iawn drwy’r amser ac yn flinedig iawn”.***

## “Maen nhw’n methu gweld y bobl sydd â gofal amdanyn.” (10-13oed)

Roedd eu hymatebion hefyd yn dangos bod teulu ehangach plant a phobl ifanc yn gyfrwng cefnogaeth mae mawr angen amdani. Cefnogaeth emosiynol oedd hynny’n bennaf, ac roedd methu eu gweld yn golygu *“bod neb i siarad â chi na’ch cefnogi”*. I rai, mae aelodau estynedig y teulu yn darparu cefnogaeth ariannol, er enghraifft ar ffurf bwyd a dillad.

## “Falle bo chi eisiau gweld mam-gu, a mae hi yn y sbyty, a does gennych chi ddim digon o arian i fynd yno.” (10-13yrs)



# Hamdden a gweithgareddau


**"Anaml bydda i'n mynd allan gyda'r teulu, weithiau gyda ffrindiau, ond alla i ddim gwneud llawer, â bod yn onest."** **(14-16oed)**

Eleni, cyflwynwyd cwestiwn newydd ynghylch hamdden a gweithgareddau. Roedd yr arolwg yn holi plant a phobl ifanc am eu gweithgareddau yn ystod y penwythnos. Roedden ni eisiau deall mwy i weld ydy tlodi'n cael effaith ar beth maen nhw'n ei wneud, gyda phwy maen nhw'n ei wneud, a pha rwystrau neu heriau gallan nhw eu hwynebu yn ystod eu hamser hamdden.

Fe wnaethon ni ofyn *"Beth rydych chi fel arfer yn gweud ar y penwythnos?"* Roedd y rhan fwyaf o **blant a phobl ifanc yn aros gartre neu'n treulio amser gyda ffrindiau**. Yn achos y rhai oedd yn treulio amser gyda ffrindiau, ymddangosai fod hynny wyneb yn wyneb gan mwyaf, er bod nifer yn rhyngweithio â'u ffrindiau trwy gêmau ar-lein. Roedd mynd **am dro neu 'chwarae tu allan'** hefyd yn weithgaredd cyffredin, a lle nodwyd hynny, y man mwyaf cyffredin i wneud hynny oedd 'y parc'.

Soniodd ambell blentyn a pherson ifanc am weld rhiant ar y penwythnos, neu dreulio amser gydag aelodau o'r teulu estynedig. Cyfeiriwyd hefyd at chwarae neu wylio chwaraeon, rygbi neu bêl-droed fel arfer, gyda rhyw 12% fel arfer yn gwneud hynny dros y penwythnos. Roedd hefyd nifer yn nodi nad oedden nhw'n mynd allan o gwbl ar y penwythnos.

**Gyda phwy rwyt ti'n gwneud hyn?**




At ei gilydd, ychydig o wahaniaeth oedd ar draws y grwpiau oed o ran gyda phwy roedden nhw'n gwneud eu gweithgaredd.

Gofynnodd yr arolwg i'r plant a'r bobl ifanc *"Tase dim byd yn dy rwystro, beth hoffet ti wneud ar y penwythnos?"* O ystyried natur agored y cwestiwn yma, mae'n ddiddorol bod eu hymatebion yn canolbwyntio'n bennaf ar 2 faes: **treulio amser gyda'r teulu a threulio amser gyda ffrindiau.**


### “Hoffwn i gael picnic pan dyw Mam ddim yn brysur yn gweithio.” (10-13oed)

Roedd y rhai oedd eisiau treulio mwy o amser gyda’u teulu yn nodi bod eu **rhieni fel arfer yn gweithio** dros y penwythnos, neu eu bod yn **methu fforddio trafnidiaeth** i ymweld â pherthnasau. Byddai llawer yn hoffi *“mynd allan am y dydd”* gyda’u teulu, ac roedd hynny’n cynnwys ymweld â pharciau cenedlaethol, traethau, y sŵ, trefi a dinasoedd gerllaw, neu’n syml fynd am dro hir. Nodwyd hefyd fod costau teithio i’r mannau hyn a mynd iddynt yn rhwystr.

### “Mynd am dro braf yng nghefn gwlad neu dreulio amser gyda’r teulu sy’n bell i ffwrdd.” (14-16oed)

Roedd y plant a’r bobl ifanc yn cyfleu bod gweld ffrindiau’n amlach a gallu ‘ymuno’ â’u ffrindiau yn bwysig iddyn nhw. Roedd tua **hanner eisiau bod gyda’u ffrindiau yn amlach**, ond yn methu fforddio trafnidiaeth i wneud hynny, neu roedd eu teulu *“yn gwrthod mynd â nhw”*. Roedd y gweddill eisiau ymuno â’u ffrindiau ar ymweliadau â’r dref neu fynd i fowlio neu i’r sinema. Er bod rhai’n gallu gwneud hynny, cyfeiriodd llawer eto at gostau trafnidiaeth a gweithgareddau, ochr yn ochr â phellter ac ymrwymiadau gwaith y teulu fel rhwystrau.

**Rhesymau pam rwyt ti'n methu gwneud hyn**




Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 2 opsiwn

Fel mae'r siart uchod yn dangos, roedd cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc (25%), yn gallu gwneud eu hoff beth pryd bynnag roedden nhw'n dymuno. Y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hynny oedd treulio amser gyda'u ffrindiau, 'ymlacio heb wneud dim', chwarae yn y parc neu ymweld â'u cartrefi. Fodd bynnag, roedd yn well gan eraill a ddewisodd yr opsiwn yma aros y tu mewn ar eu pennau eu hunain.

Mynegwyd **awydd hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a drefnwyd**. Roedd hynny'n cynnwys rygbi a phêl-droed yn bennaf, ond hefyd gymnasteg, caiacio, marchogaeth a dringo. Y rhesymau dros fethu gwneud hyn oedd c**ostau trafnidiaeth, cyfarpar, ffioedd a phellter.**

Mynegodd rhai plant a phobl ifanc ddiddordeb mewn profi gwahanol leoedd a gweithgareddau, ac roedd nifer bach yn syml eisiau amser 'di-straen' iddyn nhw eu hunain.

**"I fod yn onest, cyfle i gysgu mewn heb boeni am ddim byd." (14-16oed)**



# Tasen i'n Brif Weinidog Cymru......

**"Talu arian i mewn i offer ysgol a bwyd i'r plant a'r teuluoedd sydd mewn angen, i'w helpu i gael yr addysg maen nhw'n ei haeddu, iddyn nhw allu cael dyfodol."** (17-18oed)

Bob blwyddyn, mae ein harolwg yn gofyn i blant a phobl ifanc, tasen nhw yn rôl Prif Weinidog Cymru, beth fydden nhw'n gwneud i atal tlodi. Rydyn ni'n disgrifio Prif Weinidog Cymru fel y *'person sy'n gyfrifol am Gymru gyfan'.*

Ar draws y blynyddoedd, mae eu ffocws a'u hymatebion wedi parhau'n debyg iawn, at ei gilydd. Bydden nhw'n ceisio **delio â bwlio; costau ysgol, gan gynnwys y wisg, trafnidiaeth a phrydau ysgol;** helpu pobl i gael **gwaith, gyda mwy o gyflogaeth am gyflog gwell a chynyddu'r gofal plant** sydd ar gael.

Sonion nhw hefyd am yr angen i **gynyddu budd-daliadau**, sicrhau gwell mynediad at grantiau i fwy o bobl, a mwy o gynnydd yn nifer y ceisiadau am grantiau sy'n cael eu cymeradwyo. Byddai un person ifanc yn sicrhau bod Incwm Sylfaenol i Bawb yn cael ei weithredu.

**"Cefnogi'r bobl sy'n mynd drwyddi, fel eu bod yn gwybod bod nhw ddim ar eu pen eu hun."** (10-13oed)

Yn unol â'u hymatebion ar hyd yr arolwg, byddai plant a phobl ifanc yn rhoi sylw i'r materion cysylltiedig ag **anghydraddoldeb a thegwch**, nid yn ariannol yn unig, ond gyda ffocws penodol ar ***'trin pawb yr un fath'***, gyda **charedigrwydd a pharch**.

**"Gwneud pobl yn fwy ymwybodol i fod yn agored, ac i bobl sefyll i fyny'n fwy dros eraill, bod yno fel cymuned gyfan. Mae gan bob person deimladau a bywyd."** (14-16oed)

**"Byddwn i'n garedig i blant."** (10-13oed)

Ymhlith y meysydd eraill oedd yn bwysig i blant roedd yr angen am **denantiaethau diogel a thai fforddiadwy**, gan sicrhau bod y rheiny mewn **cymunedau ac amgylcheddau diogel**. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen am **adeiladu mwy o gartrefi**, fel bod gan bawb rywle i fyw.

**"Gwella ystadau cyngor, dylai teuluoedd fedru byw'n ddiogel beth bynnag yw eu sefyllfa. Mae bod mewn cartref sydd ddim yn ddiogel yn gwneud y sefyllfa'n waeth."** (14-16oed)

**"Adeiladu mwy o dai a gwneud yn siŵr bod yr heddlu'n patrolio ymhobman i wneud y ddinas yn ddiogel, fel bod pobl yn gallu byw mewn heddwch a ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer pethau drwg."** (10-13oed)

**Unwaith eto, mae ein plant a'n pobl ifanc wedi bod yn rhyfeddol. Hoffai Plant yng Nghymru ddiolch o galon i'r holl blant a phobl ifanc a fu'n rhan o'r arolwg hwn. Gwrando arnyn nhw a mynd ati i glywed eu lleisiau yw craidd ein gwaith.**

**Byddwn ni'n sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed trwy rannu eu sylwadau a chanfyddiadau'r arolwg hwn gydag ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisi, yn lleol ac yn genedlaethol, yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru, Ysgrifenyddion Cabinet, Gweinidogion ac wrth gwrs, Prif Weinidog Cymru.**

